**<u>Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd</u>**

**<u>Rhaglen Waith 2017/18</u>**

Mae nifer o gynlluniau strategol economaidd ac adfywio eisoes ar waith gan y Cyngor a phartneriaid ym Meirionnydd, bydd y rhain yn parhau i gael eu gweithredu ac maent wedi eu cynnwys yn y Rhaglen Waith.

Ar yr un pryd mae angen gweithredu yn rhagweithiol gyda chynlluniau pwrpasol i ymateb i'r heriau sydd wedi eu hadnabod ac i gyfleoedd newydd.

Mae'r sefyllfa gyllidol dros y cyfnod nesaf yn mynd i fod yn un heriol, ond mae cyfleoedd hefyd, gan gynnwys gwyro cynlluniau ac uchafu gwariant rhaglenni cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol i amgylchiadau Meirionnydd.

Noder fod y rhaglen waith isod yn bennaf yn seiliedig ar ymrwymiadau Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd (wedi eu dynodi gan *):

| Cynllun | Gweithgaredd | Gweithredu |
|---|---|---|
| Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd*<br>(Amcan 1, 3) | • Cyfeirio ymholiadau mewnfuddsoddi priodol i ardal Meirionnydd<br>• Teilwra canlyniadau ymchwil y rhaglen i'r sectorau gwerth uchel mwyaf perthnasol i Wynedd yn benodol i gryfderau / cyfleoedd Meirionnydd<br>• Cyfeirio'n benodol i Feirionnydd wrth hyrwyddo'r sir yn lleoliad ar gyfer busnesau yn cynnig swyddi gwerth uchel.<br>• Cefnogi busnesau Meirionnydd i fanteisio ar gyfleoedd yn deillio o fuddsoddiadau sylweddol megis Wylfa Newydd ac Ardal Fenter Eryri.<br>• Sefydlu rhwydweithiau busnes i gefnogi cwmnïau ac unigolion yn gweithio o fewn meysydd gwerth uchel megis y diwydiannau creadigol a thechnoleg gwybodaeth i gydweithio. | Hyd at 31/03/18 |
| Ardal Fenter Eryri | • Cefnogi Llywodraeth Cymru wrth weithredu ar ei waith o hyrwyddo a chefnogi datblygiad Safle Dadgomisiynu Trawsfynydd, a Chanolfan Awyrofod Eryri, Llanbedr o ganlyniad i'w statws fel rhan o Ardal Fenter Eryri.<br>• Cymryd rôl partner lleol wrth gefnogi Bwrdd Ardal Fenter Eryri i lunio a gweithredu rhaglen waith i roi'r ddau safle mewn sefyllfa gref i ddenu datblygiadau gwerth uchel dros y tymor canolig a hir. | Hyd at 2020 |
| Cadw'r budd yn lleol*<br>(Amcan 1, 2) | • Rhoi sylw penodol i annog a chefnogi mentrau o Feirionnydd i gyflawni nwyddau a gwasanaethau i'r Cyngor.<br>• Adnabod a chydweithio gyda buddsoddiadau mawrion yn isadeiledd Meirionnydd (e.e. isadeiledd llifogydd) gan adnabod a chytuno ar ddulliau o uchafu'r budd i drigolion a busnesau lleol.<br>• Ymchwilio i adnabod a lledaenu ymarfer da yn deillio o raglen Canol Tref Porthmadog i ardaloedd ym Meirionnydd. | Hyd at 31/03/18 |

| Cynllun | Gweithgaredd | Gweithredu |
|---|---|---|
| Gwynedd Ddigidol*<br>(Amcan 2) | • Sicrhau cwblhau'r rhaglen Cyflymu Cymru cyn gynted â phosib ym Meirionnydd (band eang cyflym eisoes wedi cychwyn cael ei ddarparu ymhob ardal cyfnewidfa ffon ond am un).<br>• Hyrwyddo'r grant Allwedd Band eang Cymru i'r ychydig fusnesau fydd ddim yn erbyn gwasanaeth drwy Gyflymu Cymru (pan yn hysbys), ynghyd a hyrwyddo argaeledd grantiau band eang uwch gyflym i fusnesau sydd angen gwell darpariaeth.<br>• Pwyso ar gwmnïau ffôn symudol i wella ansawdd ac argaeledd eu darpariaeth data ym Meirionnydd<br>• Sicrhau fod busnesau Meirionnydd yn manteisio i'r eithaf ar fand eang drwy hyrwyddo darpariaeth y cynllun Cyflymu Busnes Cymru gan sicrhau fod y cynllun yn cyfeirio adnoddau a gweithgaredd i'r ardal.<br>• Ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu'r sector TGCh ynghyd a defnydd cymunedol arloesol o dechnoleg gan roi sylw penodol i ardaloedd ym Meirionnydd. | Hyd at 31/03/18 |
| Cefnogi'r economi wledig*<br>(Amcan 1,2) | • Cydweithio'n agos gydag Arloesi Gwynedd Wledig (darpariaeth LEADER Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru yng Ngwynedd) i adnabod, datblygu a gweithredu cynlluniau peilot ym Meirionnydd fydd yn elwa Gwynedd Wledig yn ei gyfanrwydd. Cynlluniau peilot eisoes yn cynnwys:<br>- Pwyntiau ceir trydan;<br>- Biosffer Dyfi<br>- Awyr Dywyll<br>- Cysawd Eryri<br>- Byw a Bod Perfformio<br>• Annog a chefnogi ceisiadau i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop gan gynnwys cydweithio i sefydlu strwythur priodol ar gyfer elfen LEADER y rhaglen. | Hyd at 2020 |

| Cynllun | Gweithgaredd | Gweithredu |
|---|---|---|
| | • Annog a chefnogi mynediad gan fentrau yn ardal Meirionnydd i gronfeydd cenedlaethol Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru gan gynnwys y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig<br>• Dylanwadu i gyfeirio adnoddau rhaglenni cenedlaethol Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru (megis Cyswllt Ffermio) i Feirionnydd.<br>• Lobio i gyfeirio ffynonellau amgen o adnoddau ac arian megis y Loteri Fawr i ardaloedd gwledig.<br>• Datblygu ac annog ymyraethau yn y maes digidol. Prosiectau yn cynnwys hyrwyddo ac annog mwy o fusnesau o Feirionnydd i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael trwy raglen "Cyflymu Cymru i Fusnesau" (CCF) Llywodraeth Cymru i arloesi, tyfu a chael mynediad i farchnadoedd newydd. | Hyd at 31/3/2018 |
| Digwyddiadau proffil uchel a strategol* | • Gweithio law yn llaw a'r digwyddiadau mawr gan adnabod cyfleoedd, a datblygu syniadau a phrosiectau penodol er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i fusnesau a thrigolion Gwynedd.<br>• Gweithio'n agos gydag Uned Digwyddiadau Mawr, Llywodraeth Cymru ar brosiectau er mwyn denu buddsoddiad ychwanegol i ddigwyddiadau gan y Llywodraeth e.e. Red Bull Hardline yn Ninas Mawddwy.<br>• Gweithio gyda threfnwyr digwyddiadau er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc Gwynedd elwa o'r digwyddiadau trwy gynorthwyo neu gymryd rhan ynddynt.<br>• Gweithredu rhaglen i uchafu'r budd i'r gymuned leol yn deillio o Wŷl Rhif 6 ym Mhortmeirion gan gynnwys gweithgareddau penodol i annog / denu ymwelwyr i Borthmadog a chynnal llwyfan ar gyfer artistiaid lleol.<br>• Rhaglen awr ar sianel SKY ARTS wedi ymddangos am y tro cyntaf eleni ar Gwyl Rhif 6<br>• | Hyd at 31/03/18 |

| Cynllun | Gweithgaredd | Gweithredu |
|---|---|---|
| Cydymdrechu yn erbyn tlodi* | • Gweithredu rhaglen gwytnwch digidol i gefnogi unigolion yng Ngwynedd i feddu ar y sgiliau i ennill budd o'r byd digidol ac yn arbennig o fewn cymunedau gwledig. Bydd ffocws penodol ar gefnogi trigolion ardaloedd gwledig i gael mynediad i wasanaethau ar-lein ac ar sicrhau'r nad yw unigolion yn cael eu heffeithio'n negyddol gan drosglwyddiad y gyfundrefn budd-daliadau i'r we.<br>• Gweithredu rhaglen cynhwysiad ariannol i gefnogi unigolion a theuluoedd i arbed arian a rheoli eu cyllideb gan sicrhau nad yw'r newidiadau i fudd-daliadau yn andwyol iddynt.<br>• Gweithredu'r cynllun TRAC 11 - 16 oed i roi cefnogaeth ddwys i bobl ifanc sydd mewn peryg o gael eu heithrio o addysg a/neu waith gan deilwra gweithgaredd i amgylchiadau arbennig Meirionnydd<br>• Cefnogi datblygiad ac yna gweithredu'r cynllun TRAC 16 - 24 eto i roi cefnogaeth ddwys i bobl ifanc hŷn sydd mewn peryg o / wedi cael eu heithrio o addysg a/neu waith gan deilwra gweithgaredd i amgylchiadau arbennig Meirionnydd<br>• Cefnogi datblygiad a gweithredu'r cynllun OPUS fydd yn cynnig cefnogaeth ddwys i unigolion sydd wedi eu heithrio o'r farchnad llafur yn arbennig rhai sydd yn wynebu heriau iechyd meddwl.<br>• Cefnogi datblygiad a gweithredu'r cynllun PaCE i helpu rhieni economaidd anweithgar 25 oed neu fwy i waith drwy eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau gofal plant i alluogi'r rhiant i baratoi a chael mynediad i'r gweithlu. | Hyd at 2020 |
| STEM Gogledd<br>(Amcan 1) | • Datblygu a gweithredu cynllun STEM Gogledd i gyfeirio pobl ifanc i feysydd yn gysylltiedig â gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg sydd yn cynnig cyfleoedd gwaith gwerth uchel. | Hyd at 2020 |
| Cefnogaeth Busnes<br>(Amcan 1, 2) | • Gweithredu Cronfa Benthyciadau Busnes Cyngor Gwynedd a chynyddu ymwybyddiaeth busnesu o ardaloedd gwledig y sir o becynnau cymorth busnes y Cyngor. | Parhaol |

| Cynllun | Gweithgaredd | Gweithredu |
|---|---|---|
| | • Cefnogi a chydweithio gyda Rhwydwaith Busnes Gwynedd a'r Ffederasiwn Busnesau Bychain i sicrhau llais cryf i fusnesau'r sir<br>• Dylanwadu i gyfeirio adnoddau rhaglenni cenedlaethol cefnogaeth busnes (megis Busnes Cymru) i ardal Meirionnydd. | |
| Cymunedau Arfordirol | • Gweithredu rhaglen o weithgaredd i uchafu'r budd i gymunedau lleol yn deillio o'r llwybr arfordir gan gynnwys cylchdeithiau lleol yn cysylltu cymunedau i'r rhwydwaith cenedlaethol. 12 o'r 18 llwybr sy'n cael eu datblygu'n bresennol yn Llŷn ac Eifionydd.<br>• Annog a chefnogi mynediad gan fentrau ym Meirionnydd i gronfeydd cenedlaethol Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yng Nghymru.<br>• CYNLLUN UWCHRADDIO CYFLEUSTERAU A MYNEDIAD ARFORDIROL GWYNEDD - Mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys ffrydiau gwaith wedi targedu i uwchraddio cyfleusterau a mynediad i draethau Faner las Gwynedd er mwyn gwella safon phrofiad defnyddwyr. Bu'r ffrydiau yn targedu traeth Faner las Tywyn.<br>• Mewn ymateb i fygythiadau yn Harlech, cefnogi ymdrechion i adfywio'r dref. Dogfen Blaenoriaethau Strategol Harlech wedi ei chwblhau a'r gwaith o adnabod dulliau gweithredu yn cychwyn<br>• Cyflwynwyd cais llwyddiannus i gronfa TAIS Croeso Cymru ar gyfer denu buddsoddiad cyfalaf i doiledau ym maes parcio Bron y Graig isaf, Harlech. Yn ogystal a chreu gofod parcio bwsiau o'r newydd a lloches ym maes parcio Bron y Graig uchaf, Harlech. Y Cais ar gyfer is adeiledd Harlech yn un o dri llwyddiannus a gyflwynwyd yn sirol gan y Cyngor. Bydd toiledau yn y Bala yn cael i'w uwchraddio hefyd fel rhan o un o'r cynlluniau TAIS hynny<br>• Fel rhan o brosiect hyrwyddo twristiaeth yn sirol llwyddwyd i ddenu arian o gronfa CYTR Croeso Cymru a chynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau yn olrhain hanes Owain Glyndwr yn ddigidol yng nghestyll Harlech, Conwy , Beaumaris a Chaernarfon. Bu ir digwyddiadau cael i'w enwebu yng ngwobrau Twristiaeth | Hyd at 2020 |

| Cynllun | Gweithgaredd | Gweithredu |
|---|---|---|
| | Gogledd Cymru 2017 yn y categori ar gyfer arloesedd busnes. Llwyfanwyd y cynhyrchiadau gan gwmni Light, Ladd & Emberton. | |
| Isadeiledd | • Adnabod gwelliannau posib i isadeiledd ffyrdd Meirionnydd allai hwyluso datblygu'r economi lleol a chreu cyflogaeth.<br>• Mapio'r ddarpariaeth unedau busnes Llŷn ac Eifionydd ac adnabod unrhyw anghenion. | Erbyn 31/03/17 |
| Safle Treftadaeth y Byd* | • Cyflwyno cais am ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd er mwyn adeiladu ar dreftadaeth ddiwydiannol yr Ardaloedd Llechi, gan gynnwys Blaenau Ffestiniog, Aberllefenni a Bryneglwys, trwy ddehongli isadeiledd strwythurol y diwydiant gan glymu'r chwareli, eu trefi/pentrefi, eu rheilffyrdd a'u harbyrau | Arysgrifiad Gorffennaf 2020 |